

# HYSBYSIAD CYHOEDDUS

## CYNGOR CYMUNED RADUR A THREFORGAN

### SEDD WAG CYNGHORYDD CYMUNED – HYSBYSIAD CYFETHOL

[Yn unol ag Adran 116 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011]

#### ENW'R GYMUNED: RADUR A THREFORGAN

#### ENW'R WARD: DE RADUR

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod un sedd wag yn bodoli ar gyfer Cynghorydd ar gyfer y Ward a'r Gymuned uchod - a bod y Cyngor Cymuned yn bwriadu cyfethol cynghorydd i'w llenwi.

#### Y Cyngor

Mae'r Cyngor Cymuned yn gwasanaethu tair ward De Radur, Gogledd Radur a Threforgan. Mae'r Cyngor yn wleidyddol niwtral.

Mae'r Cyngor yn ymgynghorai statudol ar geisiadau cynllunio, ac yn cynrychioli Radur a Threforgan ar faterion sy'n effeithio ar y gymuned. Rydym yn ymateb i ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd ar faterion sy'n effeithio ar ein cymuned. Rydym hefyd yn gweithio gyda nhw, a sefydliadau eraill, er mwyn datblygu amgylchedd bywiog, deniadol, glân a diogel.

Rydym yn rheoli ardal fawr o goetiroedd a mannau agored cyhoeddus eraill ar ran y gymuned. Rydym hefyd yn berchen ar Hen Ysgoldy'r Eglwys yn Radur, sy'n darparu lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymunedol a phreifat. Trwy grantiau a chyllid arall, mae'r Cyngor yn cefnogi llawer o sefydliadau a digwyddiadau lleol.

#### Y swydd

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned.

Ein nod yw i'r Cyngor gynnwys pobl o gefndiroedd amrywiol - ac sy'n barod ac yn gallu ymrwymo i roi'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i wneud Radur a Threforgan yn lle gwyh i fyw ynddo. Gall cynghorwyr ddisgwyl rhoi hyd at 2 neu 3 awr yr wythnos i waith y Cyngor, er bod rhai yn gwneud mwy - a rhai yn gwneud llai.

Dylai ymgeiswyr fod yn frwdfrydig ynghylch cefnogi gwaith y Cyngor; gyda'r gallu i ddatblygu ac arwain prosiectau newydd gyda chefnogaeth ein aelodau eraill a'n Clercod; a gweithio'n dda gydag eraill er mwyn cynrychioli'r gymuned.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod unwaith y mis (ac eithrio mis Awst a mis Rhagfyr) fel arfer ar y trydydd dydd lau, gyda chyfarfodydd pwyllgor yn cael eu cynnal ar ddydd lau cyntaf y mis. Cynhelir cyfarfodydd rhwng 7:00pm a 9.00pm, ar Zoom ar hyn o bryd gan ddisgwyl y bydd Aelodau'n gallu mynychu naill ai'n bersonol yn yr Hen Ysgoldy'r Eglwys neu o bell o fis Medi 2021.

Rhaid eich bod yn ddinesydd Prydeinig, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd a bod o leiaf 18 oed; a'ch bod yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

## HYSBYSIAD CYHOEDDUS

- Bod (a pharhau i fod) wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned a enwir uchod;
- Yn ystod y 12 mis cyfan diwethaf eich bod wedi meddiannu, fel perchennog neu denant, dir neu eiddo arall yn y gymuned a enwir uchod;
- Roedd eich prif neu unig weithle dros y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- Eich bod dros y 12 mis cyfan diwethaf wedi byw yn y gymuned neu o fewn 3 milltir iddi.

Gallwch gael eich cyfethol i'r swydd hon os ydych chi'n byw yn unrhyw le yn Radur a Threforgan neu fel arall yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd uchod - nid yw'r swydd wedi'i chyfyngu i bobl sy'n byw yn Ne Radur.

Ni chaiff rhai pobl sefyll gan gynnwys swyddogion cyflogedig y cyngor cymuned, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngol methdalau a'r rheini a garcharwyd yn ddiweddar. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod yn gymwys i sefyll.

**Os hoffech gael eich ystyried ar gyfer eich cyfethol ar gyfer y sedd wag, anfonwch eich curriculum vitae at y Clerc, yn y cyfeiriad isod, ynghyd â llythyr eglurhaol yn nodi pam yr hoffech chi gael eich ystyried ar gyfer y rôl.**

Lynne Thomas  
Clerc i Gyngor Cymuned Radur a Threforgan  
Hen Ysgoldy'r Eglwys  
Park Road  
Radur  
Caerdydd CF15 8DF

Telephone: 029 20842213  
Email: [clerk@radyr.wales](mailto:clerk@radyr.wales)

**AR NEU ERBYN: 24 Gorffennaf 2021**

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am rôl Cyngorydd Cymuned, yna cysylltwch â'r Clerc.

**Llofnod**

**Dyddiad 24 Mehefin 2021**



Huw Onllwyn Jones  
Cadeirydd, Cyngor Cymuned Radur a Threforgan